



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod **Y Cabinet**

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Iau, 20 Hydref 2022 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

C Anderson
H J Gwilliam
A S Lewis
A H Stevens

Y Cyngorydd(wyr)

R Francis-Davies
D H Hopkins
A Pugh

Y Cyngorydd(wyr)

L S Gibbard
E J King
R V Smith

Swyddog(ion)

Huw Evans
Tracey Meredith
Martin Nicholls
Ben Smith

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Prif Swyddog Cyfreithiol
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151

Hefyd yn bresennol

Y Cyngorydd(wyr): P M Black, C A Holley

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): -

61. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

- 1) Datganodd y Cyngorwyr L S Gibbard a A Pugh gysylltiad personol â Chofnod 68 " Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".
- 2) Datganodd y Cyngorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 68 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.
- 3) Datganodd y Cyngorydd D H Hopkins gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 68 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

- 4) Datganodd y Cyngorydd E J King gysylltiad personol â Chofnod 73 "Strategaeth y Gweithlu 2022-2027".

62. Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

- 1) Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Medi 2022.
- 2) Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022.

63. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

a) Addasiad Cyllidol/Cyllideb Fach

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr Addasiad Cyllidol/y Gyllideb Fach ddiweddar gan ddweud ei fod wedi effeithio'n sylweddol ar werth y Bunt (£) yn erbyn Doler yr UD (\$). Mae hyn yn ei dro wedi cynyddu'r pwysau ar fil ynni'r cyngor.

Galwodd ar y rheini â dylanwad i lobïo Llywodraeth y DU i ymestyn y cap Ynni tu hwnt i 1 Mawrth 2023.

64. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

65. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

66. Adborth Craffu Cyn Penderfyniad - Diweddariad ar Fuddsoddiad Prosiect Oracle. (Ilafur)

Darparodd y Cyngorydd P M Black Adborth Craffu Cyn Penderfynu ar Fuddsoddiad Prosiect Oracle.

67. Diweddariad ar Fuddsoddiad Prosiect Oracle.*

Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu: Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad ar y cyd a oedd yn rhoi'r diweddaraf ar brosiect Oracle Fusion ac roedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y prosiect i dalu costau anochel sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r broses o adfer ohono.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer rhoi prosiect Oracle ar waith ynghyd â buddsoddiad pellach fel yr amlinellir ym Mharagraff 4.1 yr adroddiad.

68. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALI) ar gyrrff llywodraethu ysgolion.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

1)	Ysgol Gynradd Cilâ	Yvonne Brenton
2)	Ysgol Gynradd Craigfelen	Y Cyng. Brigitte Rowlands
3)	Ysgol Gynradd Dynfant	Kathryn Jones
4)	Ysgol Gynradd Llan-y-tair-mair	Courtney Grove
5)	Ysgol Gynradd Ystumllwynarth	Y Cynghorydd Angela O'Connor
6)	Ysgol Gynradd Plasmarl	Y Cyng. David Hopkins
7)	Ysgol Gynradd Portmead	Y Cyng. Hazel Morris Sonia Brown
8)	Ysgol Gynradd Sgeti	Richard Lancaster Suzanne Berry
9)	Ysgol Gynradd San Helen	David Hopkins
10)	Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt	Freya Davies y Cyng. Lyndon Jones
11)	Ysgol Gynradd Gellifedw	Y Cyng. Ryland Doyle
12)	Ysgol Gynradd Burlais	Kevin Delgado
13)	Ysgol Gynradd Clydach	Jonathan Morgan
14)	Ysgol Gynradd Llanrhidian	Karthnik Romesh
15)	Ysgol Gynradd Newton	Dr Nia Love
16)	Ysgol Gynradd Penclawdd	Y Cynghorydd Andrew Williams
17)	Ysgol Gynradd Penyrheol	Alison Seabourne
18)	Ysgol Gynradd Seaview	Finola Wilson

69. Deilliannau Arolwg Estyn ar gyfer Llywodraeth Leol Gwasanaethau Addysg yn Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn darparu canlyniadau Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Abertawe 2022.

Penderfynwyd nodi canfyddiadau Arolygiad Estyn 2022.

70. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn darparu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2022/2023.

Penderfynwyd:

- 1) Nodi perfformiad y cyngor o ran rheoli'r pandemig a'i ganlyniadau a chyflawni amcanion lles y cyngor ar gyfer chwarter 1, 2022-23.
- 2) Cymeradwyo defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

71. Cynnig arfaethedig i adnewyddu/estyn prydles Theatr Dylan Thomas.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant a Chydraddoldeb ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaeth Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer rhoi prydles newydd yr adeilad a elwir yn Theatr Dylan Thomas (Gloucester Place, Ardal Forol, Abertawe SA1 1TY) i Swansea Little Theatre.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo'r cynnig i estyn a sicrhau daliadaeth Swansea Little Theatre drwy ddyfarnu prydles 125 o flynyddoedd i gefnogi defnydd arfaethedig o'r lleoliad drwy ei ddyfarnu am rhent rhad.
- 2) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo gyd-drafod a setlo telerau'r brydles arfaethedig ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gwblhau'r dogfennau cyfreithiol.

72. Strategaeth Biniau Sbwriel.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Biniau Sbwriel.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo Strategaeth biniau sbwriel Abertawe fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

73. Strategaeth y Gweithlu 2022-2027.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaeth Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth y Gweithlu 2022-2027.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo Strategaeth y Gweithlu arfaethedig ar gyfer 2022-2027 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.
- 2) Rhoddir asesiad o'r cynnydd i'r Cabinet ym mis Hydref 2023.

74. Model Gweithio Ôl-bandemig.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaeth Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr egwyddorion a fydd yn sail i fodel gweithio ar ôl y pandemig y cyngor, ac sy'n ystyried gofynion gweithredol, disgwyliadau cwsmeriaid ac anghenion y gweithlu.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo'r egwyddorion arfaethedig ar gyfer gweithio ar ôl y pandemig a nodir ym Mharagraff 3.4 yr adroddiad.
- 2) Rhoi cyfrifoldeb i'r Prif Weithredwr am roi'r egwyddorion ar waith ym mhob gwasanaeth.
- 3) Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref 2023 ar effeithiolrwydd yr egwyddorion ar berfformiad gweithredol, disgwyliadau cwsmeriaid ac anghenion y gweithlu.

75. Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Achos Busnes Campysau Gwyddorau Bywyd, Lles a Chwaraeon.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd y Cyngor) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cytundebau ariannu diweddaedig a phroffil ariannol prosiect Gwyddorau Bywyd Bargen Ddinesig, Lles, a Champysau Chwaraeon Bae Abertawe.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo prif egwyddorion y cytundebau cyllid diwygiedig fel y nodir ym Mharagraffau 4.2 i 4.4 yr adroddiad rhwng y cyngor a'r Corff Atebol, a'r cyngor a Phrifysgol Abertawe.
- 2) Rhoi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol/Swyddog Monitro gwblhau telerau'r cytundebau ariannu ac ymrwymo i'r un peth ar ran y cyngor.

76. Aelod Cabinet Ymchwiliad Craffu Caffael Ymateb a Chynllun Gweithredu

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu ymateb i'r argymhellion craffu ac yn cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer cael cytundeb.

Penderfynwyd:

- 1) Cytuno ar yr ymatebion a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

77. Awdurdodi'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ailfodelu ardal llawr caled a gosod maes 2G ar dir yn Ysgol Gyfun Pontarddulais.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i neilltuo £464,722 i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y cynllun i ailfodelu ardal llawr caled a gosod cyfleuster arwyneb 2G pob tywydd ar y tir presennol yn Ysgol Gyfun Pontarddulais. Roedd yr arian yn cynnwys:

- £200,000 gan Gyngor Abertawe.
- £30,000 gan Gronfa Chwarae Cyngor Abertawe.
- £15,000 gan Gronfa Gyfalaf Aelodau Cyngor Abertawe.
- £9,000 gan Gyllideb Gymunedol Aelodau Ward.
- £210,722 o gyllid Ysgolion Bro.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol – neilltuo ac awdurdodi prosiect newydd i'r Rhaglen Gyfalaf.

Penderfynwyd:

- 1) Bydd cyfanswm o £464,722 (gan gynnwys y £254,000 a gymeradwywyd yn flaenorol) yn cael ei neilltuo i'r rhaglen gyfalaf er mwyn ailfodelu ardal chwarae arwyneb caled (hen gyrtiau tennis) a gosod arwyneb 2G pob tywydd 2G yn Ysgol Gyfun Pontarddulais.

78. Gyllideb flynyddol gyntaf i'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol 2022-2023.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y gyllideb flynyddol gyntaf (2022-2023) ar gyfer Consortiwm Addysg Ranbarthol Partneriaeth, gan gynnwys cyfraniadau pob cyngor ac yn gofyn i'r Cabinet nodi'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed wrth lunio'r gyllideb ar gyfer 2022-2023.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol gyntaf (2022-2023) ar gyfer y Consortiwm Addysg Ranbarthol, Partneriaeth, fel y nodir ym Mharagraff 3 yr adroddiad.

Cofnodion cyfarfod Y Cabinet (Dydd Iau, 20 Hydref 2022)
Parhad

Daeth y cyfarfod I ben am 11.00 am

Cadeirydd

Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol	
Dyddiad cyhoeddi:	20 Hydref 2022
Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi):	23.59, 25 Hydref 2022
Penderfyniad yn dod i rym:	26 Hydref 2022